CIWB

**Tasg 2**

# Creu gwaith celf

Rydych chi'n mynd i gynllunio gwaith celf.

Rhaid i chi ailgylchu pethau yn y gwaith celf.

1. Meddyliwch am:

   - Beth ydy'r gwaith celf? [Anifail? Adeilad? Pa siâp? Pa liw?]
   - Beth ydych chi'n mynd i ddefnyddio? Cofiwch: rhaid i chi ailgylchu pethau.

2. Cynlluniwch y gwaith celf.

3. Ysgrifennwch y teitl.

4. Labelwch y gwaith celf – dangoswch beth sy yn y gwaith celf.

5. Gwnewch y gwaith celf. Yna, beth am ddod â'r gwaith celf i'r dosbarth i ddangos i'r grŵp?

6. Beth mae'r grŵp yn feddwl o'r gwaith celf?

   Ydych chi'n cofio sut i fynegi barn?

   Ysgrifennwch y patrymau pwysig ar ddarn o bapur ac yna, ewch i'r adran **Mynegi Barn** am fwy o syniadau.

| Geirfa | |
|---|---|
| cynllunio | to design |
| pethau | things |
| labelu | to label |
| dod â | to bring |
| mynegi barn | to express an opinion |
| pwysig | important |

Ewch i'r dudalen nesaf.

CIWB

7. Rydych chi'n mynd i werthu'r gwaith celf ar y we. Felly, rhaid i chi ysgrifennu darn i ddisgrifio'r gwaith celf.

- Dwedwch beth ydy'r darn.
- Disgrifiwch y darn. Defnyddiwch ansoddeiriau da.
- Dwedwch beth rydych chi wedi defnyddio i wneud y darn.
- Dwedwch beth sy'n dda am y darn.
- Dwedwch y pris.

| Geirfa | |
|---|---|
| gwerthu | to sell |
| ar y we | on the internet |
| darn | piece |